

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher Ionawr 26<sup>ain</sup>, 2022 am 8.00 yh**

**Presennol**

Cynghorwyr	P. H Roberts	A. J. Evans	Mrs K. D. L Davies
	R. A Davies		
Ymddiheuriadau	Mrs J. E. Collins	E.W. Nicholas	D. Nicholas

**1037. Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a dderbyniwyd oddiwrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hystyried yng nghyfarfod pwyllgor cynllunio y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 26<sup>ain</sup>, 2022, wedi iddynt gael eu hystyried gan y Cadeirydd a'r Clerc yn ystod egwyl y Nadolig.**

**B3200/PL03123** Estyniad arfaethedig un llawr i'r cefnlun i greu cegin/ystafell fwyta yn 3 Clos Emily, PENYGROES  
- CANIATÂD CYNLLUNIO I DDEILIAID TAI

Sylwadau: Dim sylwadau

**B3201/PL03134** Cadw defnydd rhan o'r tŷ annedd fel tŷ gwyliau hunangynhwysiol yng Nglanlash, Caerbryn SA18 3EJ  
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

**B3202/PL03199** Cynnig i adfer mynediad amaethyddol a chodi adeilad amaethyddol ffrâm bortal (Ail-gyflwyniad o PL/01975) ar dir yn Heol Thornhill, CWMGWILI  
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

**B3203/PL03244** Estyniad arfaethedig i ystlyslun a chefnlun yr eiddo presennol yn Fferm Cwmcleddau, HEOL DDU  
- CANIATÂD CYNLLUNIO I DDEILIAID TAI

Sylwadau: Dim sylwadau

**B3204/PL03236** Garej dwbl yn Spienddu, Heol Spien, PENYGROES  
- CANIATÂD CYNLLUNIO I DDEILIAID TAI

Sylwadau: Dim sylwadau

**B3205/PL03192** Tŷ annedd preswyl newydd a garej sengl yn 62 Heol Rhydaman, LLANDYBÏE  
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

**Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a dderbyniwyd oddiwrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hystyried yng nghyfarfod pwyllgor cynllunio y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 26<sup>ain</sup>, 2022, yn gweithredu gydag awdurdod llawn.**

**B3206/PL03226** Estyniad 10 x 24 metr o faint oddiar gwedd flaen yr adeilad presennol yn Uned 3b, Clos Fferws, CAPEL HENDRE.  
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

**B3207/PL03281** Tŷ annedd preswyl newydd ar dir ger 67 Heol Wernddu, HEOL DDU.  
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Ionawr 26<sup>ain</sup>, 2022

- Sylwadau: Dim sylwadau  
**B3208/PL03300** Newid defnydd y garej domestig presennol a'i droi'n siop trin gwallt yn 42 Dol Y Dderwen, BONLLWYN  
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN
- Sylwadau: Cyn cymeradwyo'r cais hwn dylid ystyried y trefniadau parcio ceir yn yr ardal breswyl hon.  
**B3209/PL02790** Dwy gât lled 2.5m ar gyfer mynediad gatiâu electronig yng Nghysgod yr Ysgol, Heol Caerbryn, PENYGGROES  
- CANIATÂD CYNLLUNIO I DDEILIAID TAI
- Sylwadau: Dim sylwadau  
**B3210/PL03326** Newid ac addasu stabl i'w droi'n uned breswyl yng Nghae Grug, Heol Wernddu, HEOL DDU  
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN
- Sylwadau: Mae'r eiddo y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol a dylid cwrdd yn llawn â'r meini prawf ar gyfer newid defnydd.  
**B3211/PL03330** Tŷ annedd preswyl tair ystafell wely (caniatâd eisoes yn bodoli, ac wedi'i rhoi ddwywaith) a chreu mynediad a chyfleuster parcio newydd. Bydd y mynediad yn cael ei ystyried mewn cais cynllunio gwahanol yn Blaenau Villa, Heol Penygroes, CAERBRYN.  
- CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLLOL
- Sylwadau: Dylid rhoi'r sylw dyladwy i'r amodau a wrthodwyd am PL/01490, ac a hysbyswyd yn ddiweddar i'r ymgeiswyr.

### 1038.

#### **Datblygiad preswyl arfaethedig yn cynnwys 45 tŷ annedd preswyl ynghyd â seilwaith cysylltiedig ar dir oddiar Maespiode, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin**

Derbyniwyd ymgynghoriad cyn-ymgeisio oddiwrth gwmni Asbri Planning, yn gofyn am ymateb erbyn Chwefror 24<sup>ain</sup>, 2022. Roedd y Clerc wedi gofyn i'r pwyllgor cynllunio am eu sylwadau, ac wedi trosglwyddo'r ymatebion i'r ymgynghorwyr cynllunio, fel eu bod yn gallu cadw cofnod ohonynt.

Mae gan Gyngor Cymuned Llandybïe bryderon am y traffig ychwanegol tebygol a fydd yn dod o'r safle. Gan fod 135 lle parcio ar gael, bydd cyfaint y traffig, yn enwedig ar adegau prysur, yn golygu cynnydd mawr yn y llyf o gerbydau ar hyd heol Llandybïe – Penygroes, ac y creu mwy o dagfeydd ar sgwâr Llandybïe, sydd eisoes yn groesfan prysur dros ben. Mae ffigyrau'r cynllun trafndiaeth, yn dangos 15 car yr awr yn gadael y safle rhwng 8yb a 9yh, yn afrealistig.

Yn ychwanegol, mae'r Gyngor yn poeni ynghylch darpariaeth addysg; mae'n debyg y bydd cynnydd mawr yn y nifer o blant oedran ysgol gynradd a fydd yn symud i'r safle. Er gwaetha'r ffaith bod ysgol newydd i fod i'w hadeiladu erbyn 2025 (nid yw'r ymgynghoriad wedi dechrau eto), a bod yr ysgol newydd yn cynnig llefydd ychwanegol, bydd adeiladu 45 tŷ arall ar y safle hwn, ynghyd â'r cais cynllunio a ganiatawyd yn ddiweddar am 24 tŷ yn y pentref, yn golygu y bydd yr ysgol newydd yn orlawn mewn dim o dro.

### 1039.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.30 yh.

---

Cadeirydd